Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod am gŵyn sydd wedi ei wneud ynglŷn â pharcio y tu allan i'r ysgol a'r strydoedd wrth ymyl. Ar nifer o achlysuron rydych wedi cael eich atgoffa i fod yn ystyrlon wrth barcio o gwmpas yr ysgol.

I wella diogelwch, mae'r Cyngor wedi paentio llinellau dwbl melyn mewn ardaloedd penodol y tu allan i'r ysgol. Ni ddylech stopio na pharcio yn yr ardaloedd hyn. Dangoswch esiampl dda i'r plant drwy ddilyn y rheolau hyn.

Nid yw parcio ar draws llefydd parcio preswylwyr yn dderbyniol chwaith. Hefyd, mae gyrwyr diamynedd sy'n canu cyrn er mwyn ceisio cael ceir eraill i symud ymlaen yn creu niwsans i'r trigolion. Cofiwch fod yr ysgol mewn ardal breswyl.

Mae'n drosedd i greu rhwystr ar y ffordd fawr ac mae modd i'r heddlu orfodi'r gyfraith os oes rhaid, ond bydd hyn yn digwydd fel ateb olaf gan mai dysgu pobl i barcio yn ddiogel yn yr ardal yw ein bwriad ni.

Dw i'n deall ei bod hi'n anodd iawn i barcio wrth ymyl yr ysgol, ond mae parcio yn y modd hwn yn rhoi eich plant mewn peryg.

Rhowch fwy o amser i barcio i ffwrdd oddi wrth yr ysgol a cherddwch gyda'ch plentyn. Mae'n amlwg o hyd bod rhieni pan fyddant yn gweld aelodau o staff ar ddyletswydd neu'r warden traffig, yn symud ymlaen. Mae hyn yn dangos i mi eich bod yn gwybod eich bod yn gwneud rhywbeth o'i le! Os gwelwch yn dda **STOPIWCH** wneud hyn - rydych yn peryglu bywydau ein plant.

Os byddwn yn gallu adnabod pwy sy'n gyrru'r ceir byddwn yn cyhoeddi eu henwau yn ein llythyr nesaf ac os yw pobl yn parhau i barcio yn anghyfreithlon byddwn yn cael eich manylion.

Mae nifer o rieni sydd â bywydau prysur yn gweld gyrru plant i'r ysgol y ffordd fwyaf cyfleus o fynd â nhw i'r ysgol.  Mae nifer o rieni yn meddwl mai wrth yrru eu plant i'r ysgol maent yn eu cadw yn ddiogel.  Ond mae hyn yn creu cynnydd mewn traffig a thagfeydd, yn enwedig wrth giât yr ysgol.

Mae nifer o blant yn colli'r cyfle i ddatblygu sgiliau diogelwch ffordd hanfodol gyda'u rhieni ar y ffordd i'r ysgol. Nid ydynt yn magu hyder ac yn dysgu'r gallu i reoli risg wrth gerdded o gwmpas eu cymuned leol.

Gall cerdded wella lefelau ffitrwydd plant ac oedolion yn gyffredinol. Mae'n ffordd rad o gael ymarfer corff. Gall hyn gael effaith bositif yn feddyliol a chorfforol.

Rydym yn deall nad oes dewis gan rhai rhieni ond gyrru eu plant i'r ysgol, serch hynny mae llawer yn gyrru ar deithiau byr lle gallant fod yn cerdded.

Beth am gymryd cyfrifoldeb personol a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein hysgol yn lle diogel.

I gloi, rwyf yn gwerthfawrogi bod y mwyafrif o rieni yn cerdded neu yn gyrru yn gyfrifol i'r gwaith. Diolch yn fawr am ddangos esiampl dda i'ch plant.

Yn gywir,

Tîm Cymdogaethau Diogelach Sir y Fflint

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales